# Rhestr gwirio cydymffurfiaeth ar gyfer darlledwyr teledu a radio

Cyhoeddwyd 16 Mehefin 2025

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 3

2. Amodau trwydded ........ 5

3. Codau a chanllawiau ........ 7

4. Cwynion a gorfodi ........ 9

5. Trosolwg ........ **Error! Bookmark not defined.**

# 1. Cyflwyniad

## Beth yw'r rhestr gwirio cydymffurfiaeth?

1.1 Bwriad y ddogfen hon yw helpu ymgeiswyr a thrwyddedeion i ddeall y rhwymedigaethau a'r rheolau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw fel un o amodau eu trwydded i ddarlledu gan Ofcom.

1.2 Mae'n cyfeirio at reolau Ofcom, gwybodaeth a chanllawiau defnyddiol, **ond nid yw'n cynnwys popeth**. Rhaid i'r trwyddedai ei hun gymryd camau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol.

1.3 Nodir isod wybodaeth am:

- sut gall darlledwyr ofyn am ganllawiau cyffredinol gan Ofcom ar godau, rheolau a gofynion eraill trwydded Ofcom;
- y gofynion sydd wedi'u nodi yn amodau trwydded Ofcom;
- rôl a gofynion Ofcom ar gyfer darlledwyr mewn perthynas â thegwch, amrywiaeth a chynhwysiad ym maes darlledu;
- rheolau Ofcom, sydd wedi'u nodi mewn codau, am y cynnwys sy'n cael ei ddarlledu gan drwyddedeion;
- ymchwil a gynhaliwyd gan Ofcom a allai fod yn ddefnyddiol i drwyddedeion wrth iddynt wneud penderfyniadau cydymffurfio am y cynnwys maent yn ei ddarlledu;
- y gweithdrefnau mae Ofcom yn eu dilyn, er enghraifft, wrth ddelio â chwynion am raglenni darlledwr, neu wrth ymchwilio i weld a yw darlledwr wedi torri amodau ei drwydded, neu'r rheolau am y cynnwys ar ei wasanaeth;
- sut mae Ofcom yn cyhoeddi'r penderfyniadau mae'n eu gwneud ynghylch cwynion ac ymchwiliadau; ac
- y gweithdrefnau mae Ofcom yn eu dilyn wrth ystyried rhoi sancsiwn i ddarlledwr (mewn achosion difrifol, ailadroddus, bwriadol neu ddi-hid o dorri ei ofynion) ac enghreifftiau o sancsiynau mae wedi'u rhoi.

1.4 Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i bob darlledwr sydd â thrwydded Ofcom. Pan fydd gwybodaeth yn berthnasol i fathau penodol o drwydded yn unig, nodir hyn.

## Gofyn am ganllawiau gan Ofcom

1.5 Gall Ofcom gynnig canllawiau cyffredinol i ddarlledwyr ar sut mae dehongli ein codau a'n rheolau a gofynion eraill. Fodd bynnag, dim ond ar y ddealltwriaeth gadarn na fydd yn effeithio ar ddisgresiwn Ofcom i farnu achosion a chwynion y byddwn yn rhoi cyngor o'r fath ac na fydd yn effeithio ar sut byddwn yn arfer ein cyfrifoldebau rheoleiddio. Os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost at:

- OfcomStandardsTeam@ofcom.org.uk ar gyfer ymholiadau am godau a chanllawiau Ofcom sy'n ymwneud â chynnwys darlledu; neu

- Broadcast.Licensing@ofcom.org.uk ar gyfer ymholiadau am amodau trwydded neu weinyddu eich trwydded.

1.6 Mae nodiadau canllaw ar gyfer ein holl fathau o drwyddedau ar gael ar y tudalennau gwneud cais am drwydded darlledu radio a gwneud cais am drwydded darlledu teledu ar ein gwefan.

# 2. Amodau Trwydded

2.1 Mae Ofcom yn cyhoeddi gwahanol fathau o drwyddedau ar gyfer gwasanaethau teledu a radio. Mae pob trwydded yn cynnwys amodau wedi'u rhifo. Mae'r rhain yn nodi amrywiaeth o ofynion y mae'n rhaid i'r trwyddedai eu bodloni, gan gynnwys:

- rhoi gweithdrefnau cydymffurfio digonol ar waith i sicrhau bod y trwyddedai'n gallu cydymffurfio ag amodau ei drwydded a chodau a rheolau Ofcom;
- trefnu bod recordiadau o gynnwys sy'n cael ei ddarlledu yn cael eu cadw am nifer y diwrnodau a bennir yn y drwydded, a darparu'r recordiadau hynny i Ofcom pan ofynnir amdanynt erbyn y dyddiad cau penodedig;
- erbyn y dyddiad cau penodedig, rhoi i Ofcom unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnom i gyflawni ein dyletswyddau statudol (gweler isod);
- talu ffioedd trwyddedau blynyddol i Ofcom erbyn y dyddiad cau penodedig; a
- rhwymedigaethau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal a hyfforddiant (gweler isod).

2.2 Rhaid i drwyddedeion gydymffurfio â'r gofynion rhaglennu sy'n rhan o'u trwydded, sydd fel arfer wedi'u cynnwys mewn atodiad. Gall hyn fod yn ddisgrifiad o'r gwasanaeth, Prif Ymrwymiadau, Ymrwymiadau Rhaglennu, neu ofynion eraill yn dibynnu ar y math o drwydded. Ar gyfer trwyddedeion radio cymunedol, rydyn ni wedi cyhoeddi egwyddorion cydymffurfio ar gyfer Prif Ymrwymiadau.

## Rhoi gwybodaeth i Ofcom

2.3 Caiff Ofcom ofyn am wybodaeth gan drwyddedeion er mwyn cyflawni ein swyddogaethau. Fel y nodir uchod, un o amodau trwydded Ofcom yw bod trwyddedeion yn rhoi gwybodaeth i Ofcom ar gais. Mewn achosion lle nad yw trwyddedai'n ymateb erbyn y dyddiad cau a bennwyd, mae'n debygol y bydd Ofcom yn lansio ymchwiliad i gydymffurfiaeth y trwyddedai â'r amod trwydded hwn.

2.4 Pan fyddwn yn gofyn am wybodaeth gan drwyddedai, byddwn fel arfer yn egluro pam mae'r cais yn cael ei wneud, pa wybodaeth sydd ei hangen arnom, ac ar gyfer beth y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio a byddwn yn darparu dyddiad cau.

2.5 Rydyn ni'n casglu amrywiaeth o wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn flynyddol. Efallai y bydd angen gwybodaeth gennych hefyd mewn perthynas â materion eraill ar adegau eraill gan gynnwys yn ystod asesiad neu ymchwiliad o dan ein gweithdrefnau (gweler Adran 4 isod), ond heb fod yn gyfyngedig i hyn, neu pan fydd manylion trwyddedai wedi newid.

## Darparu'r gwasanaeth

2.6 Mae'n bwysig bod darparwr y gwasanaeth, yn hytrach nag unrhyw berson arall, yn dal y drwydded ddarlledu berthnasol. Mater i ddarparwyr gwasanaeth yw sicrhau eu bod wedi'u trwyddedu'n briodol. Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau ar sefyllfa drwyddedu 'darparwr gwasanaeth' ac o ran 'isosod capasiti'.

2.7 Mae canllawiau hefyd ar ddarlledu i nifer o diriogaethau ar gyfer darparwyr gwasanaethau cynnwys trwyddedadwy teledu i helpu i benderfynu lle mae angen trwyddedau ar wahân ar gyfer gwahanol fersiynau o wasanaeth.

## Rheoli cwmnïau cyfryngau

2.8 Pan fydd cais yn cael ei wneud neu pan fydd manylion trwyddedai'n newid, efallai y bydd angen i Ofcom benderfynu lle mae unigolyn yn 'rheoli' cwmni. Mae dull gweithredu Ofcom yng nghyswllt hyn wedi'i nodi yn ein canllawiau ar y diffiniad o reoli cwmnïau cyfryngau.

# Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad ym maes darlledu

2.9 Fel rhan o'n dyletswyddau statudol, mae Ofcom yn monitro gweithluoedd darlledwyr a threfniadau cyfle cyfartal. Rydyn ni'n casglu gwybodaeth am weithwyr darlledwyr o ran rhyw, hil ac anabledd ar sail orfodol. Rydyn ni hefyd yn casglu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig eraill a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran), yn ogystal â chefndir economaidd-gymdeithasol, lleoliad daearyddol a chyfrifoldebau gofalu ar sail wirfoddol. Rydyn ni'n dal y diwydiant i gyfrif yn ein hadroddiadau rheolaidd ar gyfansoddiad gweithluoedd darlledwyr.

2.10 Mae'r rhwymedigaethau hyn yn berthnasol i ddarlledwyr (gan gynnwys mewn grŵp o gwmnïau) sy'n cyflogi mwy nag 20 o bobl mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth trwyddedig, ac sydd wedi'u hawdurdodi i ddarlledu am fwy na 31 diwrnod y flwyddyn. Mae'n rhaid i ddarlledwyr sy'n bodloni'r meini prawf hyn lenwi ein harolwg meintiol o'r gweithlu bob blwyddyn yn ogystal ag arolwg hunanasesu ansoddol, sy'n asesu ac yn rhoi adborth ar effeithiolrwydd darlledwyr o ran cyflawni ystod o amcanion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad. Fel y nodir uchod, pan na fydd trwyddedai yn ymateb i'n cais am yr wybodaeth hon, mae Ofcom yn debygol o lansio ymchwiliad i gydymffurfiaeth y trwyddedai ag amod perthnasol y drwydded.

2.11 Rydyn ni'n rhoi canllawiau i ddarlledwyr ar sut mae gwneud trefniadau cyfle cyfartal. Fel un o amodau eu trwyddedau, rhaid i ddarlledwyr ystyried y canllawiau hyn wrth wneud ac adolygu eu trefniadau i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod, pobl o wahanol grwpiau hiliol ac ar gyfer pobl anabl. Gall y canllawiau hyn hefyd helpu darlledwyr i wneud trefniadau i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn perthynas â nodweddion eraill. Rydyn ni hefyd yn cynnal digwyddiadau a thrafodaethau yn y diwydiant, er mwyn rhannu syniadau a chydweithio i wneud cynnydd o ran hyrwyddo cyfle cyfartal ym maes darlledu.

2.12 Mae rhagor o wybodaeth am rôl ac adnoddau Ofcom sy'n ymwneud â thegwch, amrywiaeth a chynhwysiad ym maes darlledu ar gael ar ein gwefan.

# 3. Codau a chanllawiau

## Rheolau rhaglennu: Cod Darlledu (gyda'r Cod Trawshyrwyddo a'r Rheolau ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw)

3.1 Mae Cod Darlledu Ofcom (gyda'r Cod Trawshyrwyddo a'r Rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw) ("Cod Darlledu") yn cynnwys rheolau am gynnwys rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar deledu a radio y mae'n rhaid i drwyddedeion eu dilyn.

3.2 Mae Ofcom yn cyhoeddi amrywiaeth o ganllawiau sy'n ymwneud â safonau a chynnwys darlledu i helpu darlledwyr i ddeall sut rydyn ni'n defnyddio'r rheolau a pha ystyriaethau y bydd angen iddynt eu hystyried wrth gydymffurfio â deunydd cyn ei ddarlledu.

### Ymchwil

3.3 Mae Ofcom yn cynnal ymchwil y mae'n dibynnu arni i ddehongli ei reolau a'u rhoi ar waith.

## Rheolau hysbysebu: Cod BCAP

3.4 Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am sicrhau safonau hysbysebu ym maes darlledu. Mae'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) yn rheoleiddio'r rhan fwyaf o fathau o hysbysebu ym maes darlledu ar ran Ofcom ac yn gorfodi'r rheolau yng Nghod BCAP: Cod y DU ar Hysbysebu ym maes Darlledu, sydd ar gael ar wefan yr ASA.

3.5 Ofcom sy'n dal yn gyfrifol am reoleiddio:

- gwaharddiad ar hysbysebu 'gwleidyddol'; a
- gwasanaethau teledu rhyngweithiol, er enghraifft sianeli seicig a sgwrsio.

3.6 Os ydych chi'n bwriadu darlledu cynnwys seicig, dylech ddarllen Canllawiau Ofcom ar wasanaethau teledu seicig wedi'u priodoli i wasanaethau teleffoni â chyfraddau premiwm.

3.7 Mae Canllawiau Ofcom ar hysbysebu gwasanaethau adloniant rhywiol seiliedig ar delegyfathrebiadau a gwasanaethau sgwrsio yn ystod y dydd PRS ar gael hefyd ar gyfer y teledu.

## Faint o hysbysebu sydd ar y teledu

3.8 Mae rheolau sy'n ymwneud â faint o hysbysebion y gall darlledwyr teledu eu darlledu a sut cânt eu hamserlennu, ac mae'r rhain wedi'u nodi yng Nghod Ofcom ar Amserlennu Hysbysebion Teledu ("COSTA").

3.9 Mae nodyn canllaw ar reolau COSTA a hysbysebu ar sgrin hollt ar gael yn rhifyn 262 o Fwletin Broadcast and On Demand Ofcom.

3.10 Yn ogystal â chanllawiau ar ddefnyddio hysbysebion newydd wedi'u targedu ac effaith hyn ar statws trwyddedu a gofynion trwydded gwasanaeth teledu.

# Codau a rheolau eraill

## Cod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu

3.11 Mae isdeitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain, a elwir yn wasanaethau mynediad teledu, yn helpu pobl â nam ar eu clyw neu ar eu golwg i ddeall a mwynhau teledu. Mae rheolau ynghylch faint o wasanaethau isdeitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain y mae'n rhaid i drwyddedeion teledu eu darparu yn eu rhaglenni. Mae Cod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu yn cynnwys gofynion ar gyfer isdeitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain.

## Rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda

3.12 Mae Rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda yn cynnwys rheolau ynghylch hyd, amlder, dyraniad a/neu amserlennu darllediadau pleidiau gwleidyddol neu ymgyrchoedd refferendwm.

## Cod ar Atal Gwahaniaethu Gormodol rhwng Hysbysebwyr Darlledu

3.13 Dylai trwyddedeion hefyd fod yn ymwybodol o'r Cod ar Atal Gwahaniaethu Gormodol rhwng Hysbysebwyr Darlledu.

## Codau Technegol ar gyfer trwyddedeion radio

3.14 Rhaid i drwyddedeion sy'n dal trwyddedau radio analog gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Cod Technegol Radio Analog.

3.15 Rhaid i drwyddedeion sy'n dal trwyddedau radio digidol gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Cod Technegol Radio Digidol.

# 4. Cwynion a gorfodi

## Sut mae Ofcom yn delio â chwynion am gynnwys a ddarlledir a chydymffurfiaeth ag amodau trwydded

4.1 Mae Ofcom yn cael cwynion gan wylwyr a gwrandawyr am gynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar wasanaethau trwyddedig, a chydymffurfiaeth trwyddedeion ag amodau eu trwydded.

4.2 Mae Ofcom wedi cyhoeddi gweithdrefnau sy'n nodi sut bydd yn delio â chwynion. Dylai trwyddedeion ddarllen y rhain fel eu bod yn deall beth i'w ddisgwyl os bydd Ofcom yn cysylltu â nhw ynghylch cwyn neu ymchwiliad. Efallai y byddwn yn agor asesiad neu ymchwiliad ar ein liwt ein hunain yn ogystal â dilyn trywydd cwynion a wneir gan eraill, ond bydd y gweithdrefnau a ddilynir yn aros yr un fath.

4.3 Mae gweithdrefnau gwahanol ar gyfer y materion canlynol:

| Math o ofyniad rheoleiddiol | Gweithdrefnau penodol a gwybodaeth arall |
|---|---|
| **Asesiadau ac ymchwiliadau am gydymffurfiaeth darlledwyr â gofynion cynnwys a nodir yng Nghod Darlledu Ofcom a chodau eraill gan gynnwys y Cod Trawshyrwyddo a'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu. Mae hefyd yn cynnwys Cod y DU ar Hysbysebu ym maes Darlledu.** | Mae'r achosion hyn yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio. |
| **Asesiadau ac ymchwiliadau am gydymffurfiaeth darlledwyr â Rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda ("Rheolau PPRB").** | Mae'r achosion yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau Rheolau PPRB. |
| **Ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd mewn perthynas â rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar y teledu ac ar y radio, a chydymffurfiaeth darlledwyr â "chod tegwch" Ofcom dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996.** | Mae'r achosion yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd. |
| **Asesiadau ac ymchwiliadau am amodau trwyddedau a "gofynion perthnasol" eraill nad ydynt yn dod o dan weithdrefnau penodol eraill, a chydymffurfiaeth â'r Cod ar wasanaethau mynediad ar gyfer teledu.** | Mae'r achosion hyn yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu. |
| **Amodau trwydded a chodau perthnasol i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau darlledu.** | Mae'r achosion hyn yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth mewn trwyddedau dan y Ddeddf Darlledu. |

| Math o ofyniad rheoleiddiol | Gweithdrefnau penodol a gwybodaeth arall |
|---|---|
| **Y Cod ar Amserlenni Rhaglenni Electronig, sy'n nodi'r arferion i'w dilyn gan ddarparwyr Amserlenni Rhaglenni Electronig er mwyn (i) rhoi amlygrwydd priodol i sianeli gwasanaeth cyhoeddus, (ii) darparu'r nodweddion a'r wybodaeth sydd eu hangen i alluogi pobl sydd ag anableddau i ddefnyddio Amserlenni Rhaglenni Electronig a (iii) sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol.** | Yn gyffredinol, bydd Ofcom yn defnyddio'r Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn trwyddedau o dan y Ddeddf Darlledu ar gyfer achosion o dorri amodau (iii), a'r Gweithdrefnau Cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu ar gyfer achosion o dorri amodau (i) a (ii). |

# Bwletinau Broadcast ac On Demand

4.4 Mae Ofcom yn cyhoeddi canlyniadau ei asesiadau o gwynion ac ymchwiliadau yn ei Fwletin Broadcast and On Demand, bob pythefnos.

4.5 Mae'r Bwletin Broadcast and On Demand yn rhoi ffynhonnell bwysig o wybodaeth i drwyddedeion am sut mae Ofcom yn dehongli ac yn defnyddio'r rheolau ac amodau'r drwydded, a'r penderfyniadau mae Ofcom wedi'u gwneud. Mae Ofcom hefyd yn defnyddio'r cyhoeddiad hwn i gyhoeddi canllawiau a gwybodaeth ddefnyddiol arall i drwyddedeion ar ffurf Nodiadau i Ddarlledwyr. Rydyn ni'n disgwyl i drwyddedeion ddarllen y Bwletin Broadcast and On Demand yn rheolaidd. Gallwch gofrestru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion darlledu dros e-bost, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r Bwletin Broadcast and On Demand.

# Sancsiynau

4.6 Mae canlyniadau difrifol posibl os na fydd darlledwr yn cydymffurfio â rheolau a rhwymedigaethau trwydded Ofcom. Mae gan Ofcom bwerau i roi sancsiynau statudol ar ddarlledwyr, gan gynnwys rhoi cosb ariannol neu ddiddymu trwydded darlledwr i ddarlledu ei wasanaeth. Mae Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu yn nodi sut rydyn ni'n gwneud hyn.

4.7 Mae penderfyniadau Ofcom ynghylch sancsiynau yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth i drwyddedeion. Gallwch ddarllen am benderfyniadau ynghylch sancsiynau ar ein gwefan.